CYNGOR LLYFRAU CYMRU WELSH BOOKS COUNCIL

Castell Brychan · Aberystwyth
Ceredigion · SY23 2JB

T +44 (0)1970 624151
F +44 (0)1970 625385
castellbrychan@cllc.org.uk
cllc.org.uk | gwales.com

GPJ/MLW

6 Ionawr 2009

Stefan Sanchez
Clerc Pwyllgor
Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

Annwyl Stefan Sanchez,

YMCHWILIAD Y PWYLLGOR I HYRWYDDO CELFYDDYDAU A DIWYLLIANT CYMRU AR LWYFAN Y BYD

Amgaeaf gyfraniad byr ar ran y Cyngor Llyfrau yng nghyd-destun yr ymchwiliad uchod.

Byddem yn fodlon cyflwyno'r sylwadau yn llafar petai'r Pwyllgor yn dymuno hynny. Ond nid ydym yn pwyso am hynny: byddem yn hapus i'r papur gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ac i'r cynnwys gael ei adlewyrchu yn adroddiad y Pwyllgor.

Yn gywir,

GWERFYL PIERCE JONES
Cyfarwyddwr

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

CYNGOR LLYFRAU CYMRU WELSH BOOKS COUNCIL

Castell Brychan · Aberystwyth
Ceredigion · SY23 2JB

T +44 (0)1970 624151
F +44 (0)1970 625385
castellbrychan@cllc.org.uk
cllc.org.uk | gwales.com

Ymateb i Gais am Dystiolaeth:

Ymchwiliad y Pwyllgor i Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd

Mae sector cyhoeddi llewyrchus a bywiog yn hanfodol bwysig ar gyfer lledaenu gwybodaeth am Gymru a'i diwylliant trwy'r byd. Mae llyfrau'n cynnig mynediad hawdd i'r diwylliant hwnnw: llyfrau sy'n sicrhau bod Cymru'n weladwy ar lwyfan rhyngwladol. Asgwrn cefn pob llenyddiaeth iach yw'r diwydiant cyhoeddi. Oherwydd hynny, mae cefnogaeth Cyngor Llyfrau Cymru i gyhoeddi a dosbarthu teitlau o bob math – o nofelau llenyddol i lyfrau am y celfyddydau gweledol – yn gyfraniad allweddol tuag at hybu diwylliant Cymru ar raddfa fyd-eang.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru'n cydweithio'n agos gyda chyfranwyr diwylliannol a llenyddol eraill, gan gynnwys Cyfnewidfa Lên Cymru, Yr Academi Gymreig/Cyngor Celfyddydau Cymru, y Cyngor Prydeinig, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn ogystal ag amrywiaeth eang o fannau gwerthu ac arddangos megis orielau a siopau llyfrau, er sicrhau bod digwyddiadau ac arddangosfeydd llenyddol a chelfyddydol yn derbyn cefnogaeth gan y fasnach lyfrau.

Mae'r diwydiant cyhoeddi – sy'n cynnwys cynhyrchu, hyrwyddo, dosbarthu a gwerthu llyfrau – yn fan cyfarfod unigryw rhwng diwylliant, busnes a thwristiaeth yng Nghymru ac yn fyd-eang. Mae teithiau masnachol a ffeiriau llyfrau rhyngwladol, megis Ffair Lyfrau Frankfurt, yn cynnig cyfleoedd dihafal ar gyfer atgyfnerthu'r sector cyhoeddi yng Nghymru a thrwy hynny ennyn diddordeb mewn gwledydd eraill yn ein celfyddydau a'n diwylliant. Bu presenoldeb Cymru yn Ffair Lyfrau Frankfurt, gwerthu llyfrau trwy siop ar-lein gwales.com a chynnal Swyddog Tramor Cyngor Llyfrau Cymru, yn ddolenni pwysig yn y gadwyn hon.

Ar hyn o bryd, oherwydd prinder arian, ni fu modd i'r Cyngor Llyfrau ail-lenwi swydd y Swyddog Tramor. Hefyd, yn sgil newidiadau yn y drefn ariannu Ewropeaidd, yr oedd peth ansicrwydd y llynedd ynglŷn â chefnogaeth Busnes Cymru Rhyngwladol (IBW), sy'n ariannu'r gynrychiolaeth Gymreig yn Ffair Lyfrau Frankfurt. Yn y pen draw, llwyddwyd i bennu cyllideb ar gyfer mynychu'r Ffair, er ar raddfa lai nag o'r blaen, ond mae'r sefyllfa'n aneglur unwaith eto ar gyfer 2009.

Byddai diogelu gwaith hyrwyddo ein diwydiant cyhoeddi yn Ffair Lyfrau Frankfurt, ehangu ei bresenoldeb mewn ffeiriau rhyngwladol eraill a datblygu rôl y Swyddog Tramor yn hwb aruthrol i'r sector yn gyffredinol. Byddai hefyd yn mynd â'n diwylliant a'n celfyddydau i sylw'r byd. Mae cydweithio agos rhwng amryw o adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn anhepgor ar gyfer datblygu gwaith rhyngwladol Cyngor Llyfrau Cymru.

Ionawr 2009